

## CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch echnos yng ngofal Gwenno, Dafydd ac Andrew.

## Banc Bwyd

Gwahoddwn chi os dymunwch i roi bwydydd ym mocs y Banc Bwyd wrth y drws yn Capel Coch. Rydym yn falch o gael cefnogi Banc Bwyd Caernarfon. Diolch am eich haelioni dros y flwyddyn ddiwethaf ac edrychwn ymlaen at allu parhau i gefnogi'r gwaith eleni. Mae trefnwyr y Banc Bwyd yn ddiolchgar am ein cefnogaeth.

Dyma'r math o bethau a dderbynir:  
Llefrith UHT neu bowdr - Siwgr - Sudd ffrwythau - Cawl tun - Pasta - Tuniau tomatos - Grawnfwyd - Siocled - Tuniau pwddin reis - Bagiau te - Coffi - Reis - Powdwr tatws stwnsh - cig tun - jam - ffrwythau tun - bisgedi.

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Chwefror 2

9.30 a.m. - Y Gweinidog  
10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Gweinidog  
Oedfa Gymun

#### Chwefror 9

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Mr Andrew Settatee

#### Chwefror 16

10.00 a.m. - Oedfa Deulu  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Chwefror 23

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Nos Fercher, Chwefror 5:** Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Chwefror 9:** Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Andrew Settatee.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Nos Fercher, Chwefror 5:** Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Chwefror 9:** Gwasanaethir yn yr Oedfa Gymun am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Chwefror 9:** Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Chwefror 2

10.00 a.m. - Mr John H Hughes  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Mr John H Hughes

#### Chwefror 9

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

#### Chwefror 16

10.00 a.m. - Dr Huw Tegid Roberts  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa

#### Chwefror 23

10.30 a.m. - Oedfa Deulu  
5.00 p.m. - Y Gweinidog



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris  
Rhif 577- Dydd Sul, 02 Chwefror, 2014

## Mumbai

Petaech chi yn ninas Mumbai yn India heddiw, byddai cyfle i chi fod ymhlith y teithwyr cyntaf ar drên un gledren (*monorail*) newydd y ddinas a fydd yn cario teithwyr am y tro cyntaf heddiw. Ynghyd â'r metro (a fydd yn cynnwys trenau tanddaearol cyntaf y ddinas), a'r briffordd newydd, Eastern Freeway, a'r terminws newydd ym mhrif faes awyr y ddinas, mae'n arwydd amlwg o ffyniant newydd a datblygiad cyflym y ddinas a'r wlad. Mae'n amlwg bod arian mawr yn cael ei wario ar foderneiddio system drafndiaeth y ddinas, a bod y wlad yn prysur ddatblygu ac yn dod yn rym economaidd o bwys yn y byd.

Ond mae'n amlwg hefyd nad yw'r budd economaidd wedi cyrraedd pob rhan o'r ddinas, a bod miloedd o bobl ymhellach o lawer oddi wrth fywyd cyfforddus na thairt yr un trên na char nac awyren. Rhan o ddinas Mumbai yw slymiau Dharavi, lle mae rhwng hanner miliwn a miliwn o bobl yn byw mewn cytiau a thai annigonol mewn amgylchiadau dychrynlyd. Un peth sy'n dangos cymaint o dlodi sydd ym Mumbai yw'r ffaith bod Dharavi'n cael ei chydabod yn un o slymiau mwya'r byd, er nad hi o bosibl yw'r slym fwyaf yn y ddinas erbyn hyn. Mae tlodi a chyfoeth yn gymdogion amlwg ym Mumbai.

Ac o heddiw ymlaen bydd y trên un gledren yn gwibio dros Dhavari. Bydd yr hyn a wêl llawer o'r teithwyr dan ynt yn wahanol iawn i'w byd moethus hwy eu hunain. Ac eto, os bydd eu trwyn yn nhudalennau papur newydd neu lyfr

neu dabled electroneg mae'n bosibl na fyddant hyd yn oed yn sylwi ar drueni Dhavari. A phetai hynny'n digwydd a thrigolion Dhavari yn aros yn eu tlodi am fod cymdeithas ffyniant newydd India yn eu hanwybyddu, byddai'n drasiedi o'r mwyaf.

A gofalwn nad awn ninnau heibio i dlodi a chynni'r byd Gwylw rhag i ni edrych, o sedd y trên fel petai, ar helbulon pobl heb gael ein cyffwrdd o gwbl gan y dioddefaint hwnnw. Mor hawdd yw troi ymaith a dewis peidio â gweld angen pobl na'r cyfle sydd i ninnau weithredu drostynt. Mae dilyn yr Arglwydd Iesu Grist yn ein gorfodi i garu ac i dosturio wrth bobl mewn anghenion o bob math. Gan mai felly'n union y gwnaeth ef.

Oherwydd Efyngyl sydd gennym am Un nad aeth heibio, ond a ddisgynnodd i ganol y byd a'i helyntion. Daeth Iesu i lawr o'r trên. Daeth i ganol tlodi'r byd, i ganol ei fudreddi a'i ddrewdod; a mwy na hynny hyd yn oed, fe'i gwnaeth ei hun yn dlawd gan uniaethu â phobl yn eu dioddefaint. Mae'n gwybod yn union beth yw newyn gan iddo ymprydio am ddeugain niwrnod yn yr anialwch. Mae'n gwybod beth yw bod yn ddigartref gan nad oedd ganddo ef ei hun le i roi ei ben i lawr. Mae'n gwybod beth yw bod yn unig ac yn wrthodedig gan iddo fynd i'r Groes. A thrwy ei ddiodeffaint a'i angau mae'n delio â'n tlodi gwaethaf ac yn galluogi methdalwyr ysbrydol i fod yn gyfoethogion yng ngolwg Duw.

Gofalaeth Unedig  
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Newydd sylwi fy mod wedi bod yn eich croesawu i 'oedfaon Sul cyntaf y flwyddyn newydd' ar hyd mis Ionawr. Wel, mae'n ddechrau mis Chwefror yn barod, a daliwn i geisio bendith Duw ar ein hoedfaon heddiw fel pob Sul arall.

Gwasanaethir yn Capel Coch heddiw gan Mr John H Hughes, a diolchwn iddo am ei wasanaeth yn y ddwy oedfa. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Byddaf finnau'n arwain yr oedfaon yn Neiniolen am 9.30 a 5.00 o'r gloch a chynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Rehoboth.

## Cofion

## Cymdeithas Undebol

Yng Nghymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhŷ Elidir nos Lun ddiwethaf cafwyd sgwrs gan Mr Gareth Roberts, Deiniolen am 'Hanes Lleol Deiniolen'. Mr John Llywelyn Williams oedd yn llywyddu ac yn talu'r diolchiadau. Diolch yn fawr iddo yntau.

## Cyfarfod Chwarter

Roedd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yn Ysgol Felinwnda dan nawdd eglwys Saron, Llanwnda nos Fercher ddiwethaf.

Cafwyd cyflwyniad i Apêl Haiti Undeb yr Annibynwyr gan y Parchg Ronald Williams. Roedd gwasanaeth Cymun ar ddiwedd y cyfarfod, ac roeddwn i'n arwain hwnnw.

## Diolch

Yn dilyn y Cinio Cawl a gafwyd yn Capel Coch ym mis Tachwedd i godi arian at gyfraniad eglwys Nant Padarn at Apêl Haiti yr Annibynwyr a Chymorth Cristnogol, derbyniwyd y neges hon yr wythnos ddiwethaf o swyddfa'r Undeb yn Abertawe.

'Diolch o galon i chi am gefnogi Apêl Haiti trwy anfon siec atom am £273.35. Rydym yn gwerthfawrogi eich rhodd yn fawr iawn a'n gobaith yw y bydd yn cyfranu tuag at filoedd ar filoedd o bunnoedd ar gyfer ymgyrch yr Annibynwyr dros y flwyddyn dydd i ddod.

Pob bendith.  
Yn gywir,  
Nerys Humphries'.

## Dosbarth Beiblaidd

Cynhelir Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch nos Fercher yr wythnos hon, Chwefror 5. Yr wythnos hon, byddwn yn dysgu am ffydd Jacob, sef yr enw nesaf yn rhestr y bobl sy'n cael eu canmol am eu ffydd yn Hebreaid 11.

## Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Efe yn nhy Andrew Settatee yng Nghaeathro am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Chwefror 12.

Fe symudodd Andrew i'w dy newydd cyn y Nadolig, ac mae'n braf cael dweud ei fod wedi setlo yn dechrau cael ei draed dano yno erbyn hyn. Ei gyfeiriad yw Cartref, Caeathro, ac mae'n ddigon rhwydd dod o hyd i'r tŷ gan ei fod ar ochr y lôn, y drws nesaf i'r dafarn yng nghanol y pentref. Byddai wrth ei fodd yn eich croesawu yno i'r Cyfarfod Gweddi.

## Cronfa Gronyn

Diolch yn fawr iawn am bob rhodd a dderbyniwn i Gronfa Gronyn. Mae pob rhodd yn help i dalu am ei argraffu bob Sul. Derbyniwyd sawl rhodd ers dechrau'r flwyddyn, sy'n f'atgoffa mai tua'r adeg yma o'r flwyddyn y byddwn yn arfer tynnu sylw at y gronfa. Rydym yn falch o dderbyn rhoddion at y gronfa unrhyw adeg o'r flwyddyn wrth gwrs, ond mae yna gyfle arbennig i gyfrannu ar ddechrau'r flwyddyn fel hyn.

Gobeithio'n fawr bod Gronyn yn dal i gyflawni ei bwrpas o gyflwyno neges yr Efengyl a gwybodaeth am waith eglwysy'r Ofalaeth hon.

Os gwyddoch am rywun a fyddai'n hoffi derbyn copi yn wythnosol, ond nad yw'n ei dderbyn ar hyn o bryd, cofiwch roi gwybod i ni.

## Capel Got Talent

Bwriedir cynnal Capel Got Talent yn Capel Coch unwaith eto yn dilyn llwyddiant y noson arbennig a gafwyd y llynedd.

Y dyddiad yw nos Wener, Chwefror 21, a'r beirniad fydd Arwel Jones, Hogia'r Wyddfa.

Mae llwyddiant y noson yn dibynnu ar gael digon o gystadleuwyr. Bydd rhaid cael o leiaf 10 eitem er mwyn cynnal y noson. Os na fydd digon o eitemau, ni fydd modd cynnal y noson.

Felly, a wnewch chi ofalu eich bod yn rhoi eich enw i ni erbyn dydd Sul nesaf, Chwefror 9 a nodi beth fyddwch yn ei wneud. Cafwyd ymateb ardderchog y llynedd gydag amrywiaeth o eitemau. Mae croeso i oedolion yn ogystal â'r plant a'r ieuencid gymryd rhan eleni eto. Canu, adrodd, dweud jôcs, actio, dawnio, chwarae offeryn cerdd, dweud stori, gwaith celf, jyglo, hyfforddi ci, coginio, consurio - beth bynnag y dalent cyma'ch cyfle i gystadlu am dlws Capel Got Talent 2014.

Ieuencid y dosbarth Ysgol Sul fydd yn trefnu eleni eto. Felly, ffoniwch 872390 i roi eich enw i ni erbyn dydd Sul nesaf.

A chofiwch, mae'n bwysig ein bod yn cael gwybod yr wythnos hon er mwyn gwneud yn siŵr bod y noson yn cael ei chynnal.

## Cydymdeimlo

Bu farw Gwyneth Rees Davies, (gynt o Gwenfro; Llanberis yn Ysbyty Charring Cross, Llundain. Bu'n byw yn Llundain ers blynyddoedd ond bu'n cyfrannu'n gyson ar hyd y blynyddoedd at yr Achos yn Capel Coch. Cydymdeimlwn â'i chyfnither, Elisabeth, a'r teulu cyfan yn eu colled.